# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

Dyddiad ac Amser

**3.30 y.h., DYDD LLUN, 26AIN EBRILL, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Teams**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**EirianRoberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 22/4/21)

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION

AELODAETH

## AELODAU CABINET

Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams (Addysg)
Y Cynghorydd Ioan Thomas (Cyllid)

## PRIF WEITHREDWR

Mr Dilwyn Williams

## PENNAETH CYLLID

Dafydd Edwards

## PENAETHIAID UWCHRADD

Mr Dylan Davies – Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Dewi Lake – Ysgol y Moelwyn
Mr Dylan Minnice - Ysgol Botwnnog
Mr Arwyn Williams – Ysogl Tryfan

## PENAETHIAID CYNRADD

Mrs Iona Jones - Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal
Mrs Menna Wynne Pugh – Ysgol Penybryn
Mr Alan Wynn Jones – Ysgol Cymerau
Mr Richard Dewyn Jones – Ysgol Garndolbenmaen
Mr Llion Williams – Ysgol y Garnedd
Mrs Eleri Morgan Davies – Ysgol Y Gorlan

## UNDEBAU ATHRAWON

Mr Neil Foden – Ysgol Friars

## LLYWODRAETHWYR

Arfon
Mr Godfrey Northam - Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Edward Bleddyn Jones – Ysgol Tregarth

Meirionnydd
Gwilym Eifion Roberts, Ysgol Godre'r Berwyn

Dwyfor
Mr Gwilym Jones, Ysgol Borthygest,
Disgwyl Enwebiad – Llywodraethwr Uwchradd

## ESGOBAETH

Anest Gray Frazer

## YSGOLION EGLWYS

Mr Elfed Morgan Morris – Ysgol Llandygai

## YSGOLION ARBENNIG

Mrs Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon

**Sylwedyddion:**

Mr Garem Jackson, Pennaeth Addysg
Mr Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg
Ms Kathy Bell, Cyfrifydd Grŵp Ysgolion
Ms Gwenan Davies Jones - Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd
Ms Ellen Williams - Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 8

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 25 Ionawr, 2021.

## 5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Trafod unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

## 6. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH - 2021-24 9 - 10

Adroddiad gan Owen Owens (Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg)

## 7. EITEMAU AR GYFER Y CYFARFOD NESAF

Ystyried eitemau ar gyfer cyfarfod nesaf y fforwm.

## 8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y fforwm am 3.30yp, ar ddydd Llun, 28 Mehefin, 2021.

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION DYDD LLUN, 25 IONAWR 2021

**Yn bresennol:** Mr Godfrey Northam (Llywodraethwr Ysgol Dyffryn Ogwen) (Cadeirydd).

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorwyr Ioan Thomas (Cyllid) a Cemlyn Williams (Addysg)

**Penaethiaid Ysgolion:**

Uwchradd: Dylan Davies (Ysgol Dyffryn Ogwen), Dewi Lake (Ysgol y Moelwyn), Dylan Minnice (Ysgol Botwnnog) ac Arwyn Williams (Ysgol Tryfan).

Cynradd: Iona Jones (Ysgol Edmwnd Prys / Bro Cynfal), Menna Wynne Pugh (Ysgol Penybryn), Alan Wynn Jones (Ysgol Cymerau), Richard Derwyn Hughes (Ysgol Garndolbenmaen) ac Eleri Morgan Davies (Ysgol y Gorlan).

**Undebau Athrawon:** Neil Foden (Ysgol Friars)

**Llywodraethwyr:** Edward Bleddyn Jones (Ysgol Tregarth), Gwilym Eifion Roberts (Ysgol Godre'r Berwyn) a Gwilym Jones (Ysgol Borthygest).

**Ysgolion Eglwys:** Elfed Morgan Morris (Ysgol Llandygai)

**Ysgolion Arbennig:** Donna Roberts (Ysgol Hafod Lon)

**Sylwedyddion:** Gwenan Davies Jones (Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd) ac Ellen Williams (Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd).

**Swyddogion:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Owen Owens (Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg), Kathy Bell (Cyfrifydd Grŵp Ysgolion), Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor / Meirion), Ffion Ellis Edwards (Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Croesawyd Gwilym Eifion Roberts (Ysgol Godre'r Berwyn) i'w gyfarfod cyntaf o'r fforwm.

Dymunwyd yn dda i Dilwyn Williams, Prif Weithredwr, ar ei ymddeoliad ym mis Mawrth, a diolchwyd iddo am ei wasanaeth.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Anest Gray Frazer (Yr Esgobaeth)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Fforwm a gynhaliwyd ar 28 Medi, 2020 fel rhai cywir.

## 5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Eitem 9 - Materion Ariannol COFID-19

Nododd y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion:-

- Yr adroddwyd yn flaenorol ein bod wedi hawlio bron i £50,000 ar ran ysgolion oherwydd costau ychwanegol yn sgil COFID, a bod cais pellach wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn hyn am ychydig dros £100,000.
- Yn sgil cyflwyno adroddiad ar gyllideb refeniw'r Cyngor i'r Cabinet ar 26 Ionawr, byddwn yn gwybod a ganiateir trosglwyddo'r grant i ysgolion, gan obeithio gwneud hynny erbyn diwedd Ionawr.

Mewn ymateb i gais am ddiweddariad ynglŷn â phrydau ysgol, eglurodd y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion nad oedd yr ysgolion unigol yn hawlio'r grant, ond bod hynny'n digwydd ar lefel strategol gan yr Adran Addysg. Roedd hynny eisoes wedi digwydd am dymor yr haf, ac roedd cais pellach wedi'i gyflwyno erbyn hyn am y golled incwm prydau ysgol.

Eitem 11 – Cyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Nododd y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion, drwy ymgynghori â'r penaethiaid, bod £160,000 o'r grant ADY ar gyfer cefnogi disgyblion anghenus wedi ei rannu rhwng yr ysgolion uwchradd; 50% ohono yn seiliedig ar y niferoedd sy'n derbyn cinio ysgol am ddim, a 50% ar sail 'Behavioural, Emotional and Social Difficulties (BESD)', sef categori anghenion arbennig.

Pwysleisiwyd, os defnyddio'r data BESD ar gyfer cyllidebu o hyn ymlaen, bod angen bod yn hollol siŵr bod y sail honno'n gyson ar draws pob ysgol yng Ngwynedd. Mewn ymateb, cytunodd y Pennaeth Cynorthwyol ADY a Chynhwysiad fod angen cysondeb, a chadarnhaodd fod y gwasanaeth a'r swyddogion sy'n cefnogi'r ysgolion yn rhoi sylw i hyn.

Croesawyd y grant unwaith ac am byth hwn, ond nodwyd bod y dull o'i ddyrannu yn codi cwestiwn o ran sut mae'r dyraniad sirol blynyddol o bron i £1,000,000 yn cael ei rannu rhwng ysgolion. Awgrymwyd y dylid edrych ar hyn eto, gan ystyried faint o blant sydd angen cefnogaeth cynhwysiad cyson, fel bod yr arian yn cael ei rannu mewn dull priodol i ymateb i anghenion y plant hynny.

Holwyd a oedd rheidrwydd i wario'r grantiau addysg erbyn 31 Mawrth eleni, er bod yr ysgolion wedi cau. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion bod rhaid gwario'r arian erbyn hynny. Byddai pob ysgol yng Nghymru yn yr un sefyllfa, a debyg bod yna arweiniad cenedlaethol ar hyn.

Holwyd ymhellach a oedd Gwynedd yn trafod y mater gyda Llywodraeth Cymru. Mewn ymateb, nododd y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion na fu'n rhan o unrhyw drafodaethau hyd yma, ond y gallai godi'r mater yng nghyfarfod cyfrifwyr Cymru yr wythnos nesaf.

Nododd y Pennaeth Addysg ein bod mewn tirwedd nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen, ac roeddem yn gaeth i reoliadau Llywodraeth Cymru. Yn ôl dehongliad y

Llywodraeth, nid oedd yr ysgolion wedi cau, ond yn hytrach yn agored ac yn dysgu o bell. Roedd y sefyllfa'n rhwystredig i ysgolion ac awdurdodau addysg, ond fel y nodwyd, byddai hyn yn cael ei godi yn y cyfarfod cyfrifwyr, ac roedd hefyd wedi ei godi gan awdurdodau ledled Cymru.

**PENDERFYNWYD cynnal trafodaeth gyda'r penaethiaid uwchradd ynglŷn â sail dyrannu dyraniad strategaeth cynhwysiad yn y fformiwla, ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf ar ganlyniadau'r trafodaethau hynny.**

## 6. RHAGOLYGON YSGOLION

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad gan y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion yn manylu ar ragolygon cyllidol 3 mlynedd i ysgolion ddechrau mis Rhagfyr 2020 ar sail cyfrifiad nifer disgyblion Medi 2020.

Nodwyd bod yr ystadegau'n dangos niferoedd cynradd yn lleihau yn sgil disgyblion hŷn yn symud i fyny i'r sector uwchradd, a'r niferoedd sy'n cychwyn cynradd wedi / yn lleihau. O ganlyniad, dros y 3 mlynedd, rhagwelid lleihad oddeutu £1m yn ein hysgolion cynradd – cyfwerth ag oddeutu 18 llai o athrawon, a chynnydd yn y sector uwchradd cyfwerth â chynnydd o 15 o athrawon.

Cyfeiriwyd at sefyllfa yn y gorffennol pan y bu i'r cynradd gynorthwyo'r uwchradd, a holwyd a fyddai'n bosib' i'w uwchradd dalu'r gymwynas yn ôl petai trafferthion yn codi yn y cynradd. Mewn ymateb, eglurodd y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion y digwyddodd hynny ar yr adeg yr oedd yr ysgolion yn wynebu arbedion o £4.3m, ac yn hytrach na bod yr arbedion yn cael eu rhannu'n gyfartal, roedd mwy o bwysau ar y cynradd i ganfod arbedion er mwyn helpu'r uwchradd. Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid nad oedd y sefyllfa cynddrwg rŵan, gan nad oedd y Cyngor yn gofyn i'r gwasanaethau na'r ysgolion am gynlluniau arbedion newydd ychwanegol erbyn 2021/22, a bod sefydliadau unigol wedi cynllunio am y senario gyda demograffi, lle bydd arian yn dilyn disgyblion. Hefyd, nodwyd, o gymharu data 2019/20 y 22 awdurdod addysg Cymreig, bod cyllid fesul disgybl cynradd Gwynedd yr uchaf drwy Gymru ar sail gros ac yn 2il ar sail net. Yn yr un amser, roedd cyllid fesul disgybl uwchradd Gwynedd yr 8fed uchaf ar sail gros ac yn 13eg ar sail net. O ganlyniad, gellid casglu fod Gwynedd yn ymddangos i ariannu'r cynradd yn weddol anrhydeddus, o'i gymharu â'r uwchradd. Yn wyneb hyn, ni chredid ein bod mewn sefyllfa i ofyn i'r sector uwchradd sybsideiddio'r sector gynradd ar hyn o bryd.

Nodwyd hefyd nad oedd grantiau penodol ysgolion am 2021/22 wedi'u cadarnhau, ac nad oedd gwarant bod pob grant yn parhau, nac yn cynyddu / lleihau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mewn ymateb, awgrymodd y Pennaeth Cyllid fod posibilrwydd cryf y byddai mwyafrif y grantiau yn aros ar yr un lefel, fel 'cash flat', oherwydd o'r hyn dderbyniwyd gyda'r 'setliad', nid oedd newidiadau mawr i'w gweld eto. Er hynny, nododd y bu i'r Llywodraeth gwtogi lefel y grantiau penodol ysgolion ym mis Ebrill / Mai 2020, felly byddai peth ansicrwydd yn parhau hyd nes derbynnir cadarnhad swyddogol gan Lywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth.**

## 7. CYLLIDEB Y CYNGOR 2021/22

Cyflwynwyd – adroddiad llafar a chyflwyniad sleidiau gan y Pennaeth Cyllid ar gyllideb 2021/22 y Cyngor, gan amlygu'r effaith tebygol ar gyllid ysgolion.

Nodwyd amserlen penderfynu ar gyllideb a threth 2021/22, darpariaeth llawn am gytundeb tâl athrawon Medi 2020 (3.1% am 5 mis yr haf), ynghyd â £250 yr un i staff ategol ar gyflogau is na £24k, ariannu incrementau cyflog athrawon, darpariaeth ar gyfer chwyddiant ar gyflenwadau, ynni, cludiant tacsis disgyblion (£207k), ayb, a demograffi (£187k) yn seiliedig ar gynnydd net mewn nifer disgyblion.

Nodwyd tebygolrwydd o ariannu bidiau un tro cludiant tacsis (£145k) a Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif (£42.5k), ynghyd â bidiau parhaol cludiant tacsis (£145k arall) a phrydau ysgol am ddim (£124k).

Fodd bynnag, eglurwyd bod y setliad grant £7m oddi wrth Lywodraeth Cymru yn cyfarch chwyddiant £6.9m, ond yn annigonol ar gyfer cwrdd â'r cynnydd mewn galw am wasanaethau.

Felly, nodwyd y bydd tynged y bid 'cryfhau darpariaeth ADY blynyddoedd cynnar; (£226k) yn dibynnu ar barodrwydd cynghorwyr Gwynedd i gynyddu lefel y Dreth Cyngor, tra bo nifer o drethdalwyr yn dioddef yn ariannol oherwydd yr argyfwng COVID.

Pwysleisiodd y Pennaeth Cyllid fod y ffigurau yn dal i symud, a gofynnwyd i'r aelodau beidio rhyddhau'r wybodaeth.

**PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth.**

## 8. STRATEGAETH DDIGIDOL YSGOLION

Cyflwynwyd – adroddiad llafar gan Swyddog Addysg Ardal Dwyfor / Meirionnydd yn nodi bod y drafodaeth lefel uchel yn parhau o ran y dewisiadau. Cadarnhaodd na fyddai yna ymrwymiad cyllidol newydd ychwanegol ar yr ysgolion y flwyddyn nesaf, ac y byddai aelodau'r fforwm yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau dros y misoedd nesaf.

**PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth.**

## 9. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH 2021-24

Cyflwynwyd – adroddiad gan yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg yn nodi bod y cytundebau canlynol yn dod i ben ar 31/3/21:-

- Arlwyo, Glanhau a Gofalu a Chynnal Tiroedd (cynradd / uwchradd / arbennig a dilynol)
- Canolfan Fusnes Addysg (cynradd)

Eglurwyd bod y cytundebau Arlwyo, Glanhau a Gofalu a Chanolfan Fusnes Addysg yn cael eu cynnig eto am y cyfnod 1/4/21 – 31/3/24, ond bod y cytundeb Cynnal Tiroedd yn cael ei gynnig am flwyddyn yn unig (1/4/21 – 31/3/22) gan fod y gwaith yn parhau o fodelu dyraniadau ar gyfer Cynnal Tiroedd i ysgolion, fel eu bod yn adlewyrchu gofynion cynnal tiroedd y safleoedd unigol yn well.

Nodwyd ymhellach:-

- Bod proses ymgynghori yn cael ei gynnal gydag ysgolion parthed y Cytundebau Lefel Gwasanaeth fyddai'n cael eu cynnig iddynt yn Ebrill 2021.

- Bod yr ysgolion wedi derbyn copïau o'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth drafft a gyflwynwyd gan y gwasanaethau, gan amlygu'r newidiadau ynddynt o'u cymharu â'r cytundebau presennol, ac y gwahoddwyd yr ysgolion i gyflwyno unrhyw sylwadau erbyn 12 Chwefror, 2021.

**PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth.**

**10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm am 3.30yp, ar ddydd Llun, 1 Mawrth, 2021.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.30 y.h. a daeth i ben am 4.25 y.h.

**CADEIRYDD**

| CYFARFOD | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
|---|---|
| DYDDIAD | 26 Ebrill 2021 |
| TEITL | Cytundebau Lefel Gwasanaeth 2021-24 |
| ARGYMHELLIAD | Derbyn yr adroddiad |
| AWDUR | Owen Owens<br>Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg |
| AELOD CABINET DROS ADDYSG | Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams |

Cytundebau Lefel Gwasanaeth

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer amrediad o wasanaethau i ysgolion. Daeth cyfnod y cytundebau isod yn dod i ben ar 31/03/21.

| CLG | Math o ysgol | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cynradd | Uwchradd | Arbennig | Dilynol |
| Arlwyo | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Glanhau a Gofalu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Canolfan Fusnes Addysg | ✓ | | | |
| Cynnal Tiroedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Cafodd y cytundebau Arlwyo, Glanhau a Gofalu a Chanolfan Fusnes Addysg eu cynnig am y cyfnod 01/04/21 i 31/03/24. Cafodd y cytundeb Cynnal Tiroedd ei gynnig am flwyddyn (01/04/21 i 31/03/22), gan fod y gwaith o fodelu dyraniadau ar gyfer Cynnal Tiroedd i ysgolion fel eu bod yn adlewyrchu'n well gofynion cynnal tiroedd y safleoedd unigol yn parhau.

Cynhaliwyd proses ymgynghori gydag ysgolion parthed y Cytundebau Lefel Gwasanaeth oedd yn cael eu cynnig iddynt yn Ebrill 2021.

Derbyniodd yr ysgolion copïau o'r CLGau drafft a gyflwynwyd gan y gwasanaethau, gan amlygu'r y newidiadau ynddynt o'u cymharu â'r CLGau blaenorol.

Gweler yn yr atodiad grynodeb o ymatebion yr ysgolion, a sylwadau'r ysgolion ar y gwahanol gytundebau.

***Argymhellir bod Fforwm Cyllideb Ysgolion yn derbyn yr adroddiad.***

**CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH 2021-24**

| | 2021/22 - 2023/24 | | | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| | Arlwyo | Glanhau a Gofalu | Canolfan Fusnes Addysg | Cynnal Tiroedd |
| Cynradd | 80/80 | 80/80 | 80/80 | 51/80 |
| Uwchradd | 9/12 | 8/12 | | 4/12 |
| Arbennig | 2/2 | 2/2 | | 1/2 |
| Dilynol | 2/2 | 2/2 | | 1/2 |

**Sylwadau Ysgolion**

**Arlwyo**
Cytundeb blwyddyn fel cytunwyd (uwchradd).

**Cynnal Tiroedd**
Dim yn dymuno CLG Cynnal Tiroedd eleni (x4)
Na. Dim yn teimlo bod y gwasanaeth o lefel dderbyniol. Chwilio am ddarparwr ein hunain. (x4)
Mae gennym ni gontractwr ein hunain. (x3)
Dim gwellt glas gan yr ysgol i'w dorri.
Dymuno cynnwys cynnal a thacluso'r buarth, trin coed hel dail a.y.y.b.